Awst 2011

DATGANIAD I'R WASG

Carrier Wales yn ehangu i gyfarfod â gofyn cynyddol

Mae cwmni TG o ogledd Cymru wedi gorfod penodi staff newydd i gyfarfod â'r gofyn cynyddol gan gwsmeriaid sy'n chwilio am wasanaeth dros rwydwaith FibreSpeed.

Mae'r Gymraes, Nikki Owen yn un o ddau wyneb newydd yn Carrier Wales a fydd yn gweithio o swyddfa newydd y cwmni ym Marc Menai, Bangor, i helpu rheoli cyfrifon.

Bu Nikki, sy'n dod o Ynys Môn, yn gweithio i BT Local Business gan arbenigo mewn galwadau a llinellau.

Meddai: "Mae'n gyffrous gweithio i gwmni ym maes blaengar cysylltiadau digidol y genhedlaeth nesaf, technoleg sy'n gallu newid y ffordd y mae pobl yn gwneud busnes.

"Fy swydd i fydd i helpu Carrier Wales i deilwra atebion i anghenion y cwsmeriaid a darparu safonau uchel o reoli cyfrif o ddydd i ddydd.

Mae'r cwmni hefyd wedi cyflogi arbenigwr cysylltedd a diogeledd ar gyfer systemau Teledu Cylch Cyfyng a goruchwyliaeth arloesol sy'n defnyddio technoleg rhwydwaith IP.

Mae Carrier Wales, a enillodd bleidlais FibreSpeed fel Darparydd Gwasanaeth y Flwyddyn yn ddiweddar, wedi cysylltu nifer o fusnesau i'r rhwydwaith, yn amrywio mewn maint o 30 o weithwyr i dros 1,500.

Maen nhw'n cynnwys cwmni ynni adnewyddol o'r Wyddgrug, dadansoddwr data ariannol yn Wrecsam a darparydd gwasanaethau ariannol busnes, Anchor Computer Systems Ltd, ar Barc Menai.

Trwy FibreSpeed, mae Carrier Wales yn darparu cysylltedd dynodedig (defnydd unigol) i fusnesau, gan gynnig Rhyngrwyd hynod o gyflym o 10Mbps to 10Gbps.

Mae'r gwasanaeth cost effeithiol yn galluogi busnesau i newid y ffordd maen nhw'n defnyddio TG, o seilwaith caledwedd i drefnu meddalwedd i alluogi gweithwyr i fod yn fwy effeithiol a chynhyrchiol ac felly, yn fwy cystadleuol.

Diwedd

Integrated Digital Services Ltd t\a Carrier Wales
Grange Court, Raby Mere Road, Raby, Wirral, CH63 4JH
Tel: 0800 102 102

Registered in England and Wales. Reg No. 03030112.
Vat Reg No. GB 712291854
Web: www.carrierwales.net
Email: info@carrierwales.net